

Addasu i Newid Papur briffio

Tachwedd 2021



Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
ymchwil.senedd.cymru/

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Senedd Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1SN

Tel: **0300 200 6316**
Email: **Chloe.Corbyn@senedd.cymru**
Twitter: **[@SeneddYmchwil](https://twitter.com/SeneddYmchwil)**
Ymchwil y Senedd: **ymchwil.senedd.cymru**

© Hawlfraint Comisiwn y Senedd Cymru 2021

Ceir atgynhychu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhychu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Addasu i Newid Papur briffio

Tachwedd 2021

Awdur:
Chloe Corbyn



Cynnwys

1. Beth yw addasu i newid hinsawdd?	1
2. Cyd-destun byd-eang.....	2
3. Aseiad Annibynnol o Risg Hinsawdd y DU	4
4. Cynnydd wrth addasu i newid hinsawdd	6
5. Cymru sy'n effro i'r hinsawdd.....	8
5.1. Risgiau llifogydd i bobl, cymunedau a seilwaith.....	9
5.2. Risgiau i gyflenwadau dŵr cyhoeddus o sychder a llifoedd isel	11
5.3. Mynd i'r afael ag arferion rheoli tir sy'n cynyddu risg llifogydd.....	14
5.4. Risgiau i ecosystemau a busnesau amaethyddol yn sgil newidiadau mewn amodau hinsoddol	15
5.5. Camau trawsbynciol	18

1. Beth yw addasu i newid hinsawdd?

Nod addasu i newid hinsawdd yw **lleihau'r risgiau y mae newid hinsawdd yn eu gosod**, ac elwa o unrhyw gyfleoedd cysylltiedig lle bo hynny'n bosibl. Dyma yw un o ddau brif ymateb polisi i newid hinsawdd, ochr yn ochr â lliniaru (lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr). Mae'r ddau ymateb yn angenrheidiol oherwydd, hyd yn oed os bydd allyriadau'n gostwng yn sylweddol, ystyrir bod cynhesu pellach yn anochel. Bydd angen addasu i ymdrin â newidiadau hinsoddol sydd eisoes ar waith.

2. Cyd-destun byd-eang

“Cod coch” ar gyfer dynoliaeth

Ar 9 Awst 2021, cyhoeddodd y **Panel Rhynglywodraethol ar Newid Hinsawdd (IPCC) ei adroddiad asesu diweddaraf**. Yr IPCC yw corff y Cenhedloedd Unedig sy'n gyfrifol am asesu gwyddoniaeth newid hinsawdd.

Cafodd yr adroddiad **sylw** ar draws y byd. Galwodd y Cenhedloedd Unedig yr adroddiad yn “god coch” ar gyfer dynoliaeth, gan nodi bod **dylanwad dynol yn bendant wedi cynhesu'r atmosffer, y cefnfor a'r tir** a

The scale of recent changes across the climate system as a whole and the present state of many aspects of the climate system are unprecedented over many centuries to many thousands of years.

Roedd yr adroddiad yn cynnwys tystiolaeth glir. Amlygodd, er enghraifft, mai'r pum mlynedd diwethaf yw'r poethaf a gofnodwyd ers 1850, bod y gyfradd ddiweddar yng nghodiad lefel y môr bron wedi treblu o'i gymharu â 1901-1971, a bod hi'n 90% sicr mai dylanwad dynol yw prif sbardun y ciliad mewn rhewlifoedd a gostyngiad yn rhew môr yr Arctig.

Cytundeb Paris a COP26

Ar ddiwedd 2015, cynhaliwyd **21ain Cynhadledd y Partion sy'n rhan o'r Confensiwn Fframwaith y Cenhedloedd Unedig ar Newid yn yr Hinsawdd (COP 21)** ym Mharis. Cyfeiriwyd ato fel y cyfle olaf i sicrhau cytundeb rhynglywodraethol ar ddulliau o fynd i'r afael â newid hinsawdd. Roedd y **'Cytundeb Paris'** nodedig a gafwyd yn sgil hyn yn anelu at gadw cynhesu byd-eang o dan 20C uwchlaw lefelau cyn-ddiwydiannol, ac yn ddelfrydol o dan 1.50C. Roedd y Cytundeb **yn ei gwneud yn ofynnol** i bob Parti, fel y bo'n briodol, **ymgymryd** â gwaith cynllunio a gweithredu addasiadau, a hynny drwy fesurau megis cynlluniau addasu cenedlaethol, asesiadau bregusrwydd, monitro a gwerthuso, ac arallgyfeirio economaidd. Er nad yw Cymru yn un o lofnodwyr Cytundeb Paris, mae'r Deyrnas Unedig gyfan yn un ohonynt. Fel cyfrannwr sylweddol at allyriadau'r DU, mae cyfraniad Cymru yn ganolog i arweinyddiaeth hinsawdd y DU a gweithredu ar y llwyfan byd-eang.

Mae adroddiad diweddaraf yr IPCC yn llwm, yn enwedig yng nghyd-destun Cytundeb Paris (ychwanegwyd pwyslais):

Global surface temperature will continue to increase until at least the mid-century under all emissions scenarios considered. **Global warming of 1.5°C and 2°C will be exceeded during the 21st century** unless deep reductions in carbon dioxide (CO₂) and other greenhouse gas emissions occur in the coming decades.

Rhagwelir y bydd pob ardal ar draws y byd yn profi mwy o newidiadau cydamserol a lluosog mewn ysgogwyr sy'n effeithio ar yr hinsawdd (agweddau ar y tywydd a'r hinsawdd). Byddai'r rhain yn fwy eang os bydd cynnydd o 20C (o'i gymharu ag 10C) mewn cynhesu byd-eang, ac yn fwy eang ac yn fwy amlwg ar lefelau cynhesu uwch.

Rhwng 1 a 12 Tachwedd, aeth oddeutu 30,000 o gynrychiolwyr a 200 o arweinwyr y byd i **26ain Cynhadledd Partïon y Cenhedloedd Unedig (COP26)** yn Glasgow. Mae'r trafodaethau'n **yn cael eu hystyried yn eang** fel y cyfle olaf i gyflawni ymrwymadau i gadw'r cynnydd yn nhymeredd y byd o fewn 1.5 – 2°C. Am ragor o wybodaeth am COP26 gweler **ein herthygl ymchwil ddiweddar**.

3. Asesiad Annibynnol o Risg Hinsawdd y DU

The UK Government and the administrations of Wales, Northern Ireland and Scotland must now set out a clear, measurable vision for a climate-prepared country, bringing forward policies to deliver it. This assessment provides them with the tools to do so, in a way that is compatible with the wider policies for Net Zero and other major government objectives. The benefits of coordinated action in this way are clear. It is time for a more effective response to climate change.

Asesiad Annibynnol o Risg Hinsawdd y DU: Cyngor i'r Llywodraeth (Mehfin 2021)

Mae **Deddf Newid Hinsawdd 2008** yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth y DU gyhoeddi Asesiad Risg Newid Hinsawdd bob pum mlynedd. Mae Llywodraeth y DU yn comisiynu'r **Pwyllgor Newid Hinsawdd (CCC)** i gyflawni'r gwaith hwn. Roedd **asesiad risg 2017** yn cyd-fynd â chrynodebau cenedlaethol o dystiolaeth ar gyfer pob gweinyddiaeth ddatganoledig. **Crynodeb Cymru** oedd y sail i gynllun addasu i newid hinsawdd Llywodraeth Cymru (gweler yr **adran ddiweddarach**). Cyhoeddwyd yr **asesiad diweddaraf** ym mis Mehefin 2021, ac roedd yn cynnwys **crynodeb o'r dystiolaeth ar gyfer Cymru**.

Yng Nghymru, mae angen mwy o weithredu ar draws ystod o feysydd

Roedd y pwyntiau allweddol o'r **crynodeb o'r dystiolaeth ar gyfer Cymru** yn cynnwys:

- O'r 61 o risgiau a chyfleoedd a nodwyd, **mae angen mwy o weithredu** yng Nghymru i ateb 32 ohonynt;
- O'r 61, bernir bod chwe mater yn **risg a chyfle**, gyda phedwar ohonynt yn gysylltiedig â'r amgylchedd naturiol. Mae angen mwy o weithredu neu ymchwilio pellach yn achos pob un o'r rhain; ac
- Mae hefyd yna wyth **cyfle** a allai ddeillio o newid hinsawdd, gyda hanner o'r rhain yn gysylltiedig â'r amgylchedd naturiol.

Daeth nifer o themâu eang i'r amlwg o'r dadansoddiad:

- Mae amcanion cyfredol mewn ystod eang o gynlluniau cenedlaethol, sector a phenodol i fater yng Nghymru yn cyfrannu at addasu i newid hinsawdd. **Fodd bynnag, ni fyddant yn ddigonol ar eu ffurf bresennol i reoli maint y risgiau a ddisgrifir yn yr adroddiad.** Ceir tystiolaeth o fwlch addasu rhwng y gwaith cynllunio cyfredol a faint o weithredu sydd ei angen i reoli risgiau newid

hinsawdd. Bydd yn bwysig mynd i'r afael â'r rhain dros y pum mlynedd nesaf.

- Mae angen gwaith i **gefnogi'r rheini sy'n gwneud penderfyniadau i ddeall ac archwilio'r gwaith o reoli risgiau hinsawdd**, gan ddefnyddio data, senarios a naratifau o newid hinsawdd yn y dyfodol i'w helpu i nodi gwahanol lwybrau addasu ar gyfer cymunedau, yr economi a'r amgylchedd naturiol. Mae angen i'r gwaith hwn gydnabod pwysigrwydd rhaeadru risgiau ac effeithiau hinsawdd lluosog.
- Mae angen i waith cynllunio ar gyfer addasu i newid hinsawdd gael ei gefnogi gan **sylyfaen dystiolaeth well ar risg hinsawdd drwy fonitro, ymchwil, asesu risg a chynllunio strategol ar lefelau lleol a rhanbarthol, gyda chefnogaeth gan weithredu a pholisi cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru.**

Mae crynodeb llawn o'r risgiau a'r cyfleoedd ar dudalennau 15 i 18 o grynodeb Cymru.

Fe wnaeth **asesiad y CCC** hefyd amlinellu ystod o bolisiau Llywodraeth Cymru a all gefnogi addasu i newid hinsawdd. Mae hyn yn cynnwys y **Polisi Adnoddau Naturiol, y Strategaeth Ffermio Cynaliadwy a'n Tir, a'r Rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawndir**.

4. Cynnydd wrth addasu i newid hinsawdd

Ym mis Mehefin 2021, fe wnaeth y CCC gyhoeddi **Cynnydd wrth addasu i newid hinsawdd**. Mae'n egluro, hyd yn oed gydag ymdrechion byd-eang uchelgeisiol i leihau allyriadau, bod mwy o newid hinsawdd yn anochel. Mae'r newidiadau'n cynnwys gaeafau cynhesach a gwlypach, mwy o ddwyster glawiad yn y gaeaf a llifogydd sydyn, hafau sychach a poethach, a chynnydd parhaus yn lefel y môr.

Roedd yr adroddiad yn canolbwyntio ar gymryd camau addasu yn Lloegr, ond mae'n berthnasol i'r DU gyfan. Fe wnaeth Llywodraeth y DU **ymateb i'r adroddiad** ym mis Hydref 2021.

Mae'r DU wedi disgyn ar ei hôl hi o ran addasu i newid hinsawdd

Dywedodd yr adroddiad nad yw **Rhaglen Addasu Genedlaethol** Llywodraeth y DU wedi gwella gwytnwch yr hinsawdd yn unol â bwriad Deddf Newid Hinsawdd y DU. Dywedodd y dylai Llywodraeth y DU osod gweledigaeth glir ar gyfer DU sydd wedi'i pharatoi'n dda, ac wedi'i chefnogi gan dargedau mesuradwy i ymgorffori addasu mewn polisi ar draws meysydd yr amgylchedd naturiol, cynllunio, seilwaith, cartrefi a thai.

Ledled y DU, rhoddwyd y sgôr brys uchaf i bron 60 y cant o'r risgiau a'r cyfleoedd a aseswyd yn yr asesiad o **risg hinsawdd** 1500 tudalen o hyd. Fe wnaeth y CCC **nodi wyth maes risg â blaenoriaeth** sydd angen sylw ar unwaith, a hynny yn y ddwy flynedd nesaf fan bellaf:

1. Risgiau i hyfywedd ac amrywiaeth cynefinoedd a rhywogaethau y tir a dŵr croyw o beryglon lluosog;
2. Risgiau i iechyd y pridd yn sgil mwy o lifogydd a sychder;
3. Risgiau i storfeydd carbon naturiol a dal a storio carbon o beryglon lluosog, gan arwain at gynnydd mewn allyriadau;
4. Risgiau i gnydau, da byw a choed masnachol yn sgil peryglon hinsawdd lluosog;
5. Risgiau i gyflenwi bwyd, nwyddau a gwasanaethau hanfodol oherwydd cwmp yn gysylltiedig â'r hinsawdd mewn cadwyni cyflenwi a rhwydweithiau dosbarthu;
6. Risgiau i bobl a'r economi yn sgil methiant yn gysylltiedig â'r hinsawdd yn y system bŵer;

7. Peryglon i iechyd, llesiant a chynhyrchiant pobl yn sgil mwy o gysylltiad â gwres mewn cartrefi ac adeiladau eraill; a
8. Risgiau lluosog i'r DU yn sgil effeithiau newid hinsawdd dramor.

Mae'r Farwnes Brown, Cadeirydd Is-bwyllgor Addasu'r CCC **wedi dweud:**

The severity of the risks we face must not be underestimated. These risks will not disappear as the world moves to Net Zero; many of them are already locked in. By better understanding and preparing for the coming changes, the UK can prosper, protecting its people, its economy, and its natural environment. A detailed, effective action plan that prepares the UK for climate change is now essential and needed urgently.

5. Cymru sy'n effro i'r hinsawdd

Mae Deddf Newid Hinsawdd y DU **yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru adrodd ar ei hamcanion, ei gweithredoedd a'i blaenoriaethau yn y dyfodol o ran effaith newid yn yr hinsawdd**. Mae hefyd yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru o ran cyrff cyhoeddus a'u hymateb i risg hinsawdd. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei chynllun diweddaraf i addasu i effeithiau newid hinsawdd, **Ffyniant i Bawb: Cymru sy'n effro i'r hinsawdd**, ym mis Tachwedd 2019, wedi'i lywio gan y **Asesiad Risg Newid Hinsawdd y CCC yn 2017**. Mae'r cynllun Sero Net Cymru a gyhoeddwyd yn ddiweddar yn nodi y bydd y cynllun addasu'n cael ei ddiweddarau yn 2022.

Yn ei **chynllun addasu** mae Llywodraeth Cymru'n canolbwyntio ar risgiau a nodwyd gan asesiad 2017 fel y rhai 'mwyaf argyfyngus'. Nodir y rhain yn y tablau isod.

Atodiad technegol

Yn yr **atodiad technegol** i gyd-fynd â'r cynllun, nodir manylion pellach am y fframwaith addasu a'r camau gweithredu dros gyfnod o bum mlynedd.

Amlinellodd rhan gyntaf yr atodiad y **fframwaith** ar gyfer addasu i'r hinsawdd. Roedd yn cynnwys crynodeb o effeithiau newid hinsawdd, risgiau hinsoddol a'r berthynas rhwng addasu a lliniaru. Amlinellodd y fframwaith deddfwriaethol ar gyfer addasu (Deddf Newid Hinsawdd y DU, Deddf yr Amgylchedd (Cymru), a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Yn olaf, nododd dull Llywodraeth Cymru ar gyfer y cynllun, gan gynnwys monitro a gwerthuso ac amcanion craidd:

- Gwybodaeth: Gwella ei gwybodaeth a'i dealltwriaeth o effeithiau, risgiau, cyfleoedd a bygythiadau newid yn yr hinsawdd ar bob sector yng Nghymru yn y byrdymor, y canoldymor a'r hirdymor;
- Capasiti: Datblygu'r adnoddau a'r prosesau sydd eu hangen i reoli'r risgiau a gweithio ag eraill i gefnogi a meithrin y gallu i ymaddasu mewn cylchoedd cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd;
- Cydnerthedd Gweithredu'n uniongyrchol i addasu i effeithiau'n gynnar drwy leihau'r posibilrwydd o fod yn agored i niwed, lleihau'r bygythiadau a manteisio ar y cyfleoedd a ddaw o newid yn yr hinsawdd.

Cyhoeddir adroddiad cynnydd cyntaf ar y cynllun yng ngwanwyn 2022, ac yna ail adroddiad a gaiff ei lywio gan adolygiad allanol yng ngwanwyn 2024. Cyhoeddir y

trydydd cynllun addasu yng ngwanwyn 2025.

Mae ail ran yr atodiad yn nodi'r **camau** y byddai Llywodraeth Cymru yn eu cymryd o ran addasu i effeithiau'r hinsawdd. Roedd yn cynnwys y canlynol:

- Natur ymaddasol a'r economi wledig;
- Amddiffyn ein harfordiroedd a'n moroedd;
- Cadw'n iach;
- Cartrefi a llefydd diogel;
- Gwarchod ein treftadaeth;
- Busnes llwyddiannus; a
- Seilwaith a thrafnidiaeth gydnerth.

I bob ardal, amlinellodd is-gamau, yr effaith ar y risg o'r hinsawdd, rhanddeiliaid, a phartneriaid darparu. Hefyd, nododd ddull strategol Llywodraeth Cymru, gan gynnwys:

- Adolygu a diweddarau ei ddull cyfathrebu ar gyfer addasu i'r newid yn yr hinsawdd yng Nghymru;
- Integreiddio ystyriaeth o risgiau hinsawdd yn holl bolisiau a chynlluniau busnes Llywodraeth Cymru yn y dyfodol ac annog pob corff cyhoeddus i wneud hynny hefyd;
- Asesu risgiau a chyfleoedd yn sgil newid yn yr hinsawdd trwy gymryd rhan yn rhaglenni ymchwil y DU; a
- Chefnogi'r gymuned ryngwladol i addasu i'r newid yn yr hinsawdd ar lefel fydeang.

5.1. Risgiau llifogydd i bobl, cymunedau a seilwaith

Mae cynnydd yn lefel y môr oherwydd newid hinsawdd, a'r cynnydd yn nifer yr stormydd, yn golygu bod erydu a llifogydd yn peri risg gynyddol i gymunedau. Dywedodd Llywodraeth Cymru, trwy ei chynllun addasu, mai ei nod yw "creu cartrefi a llefydd mwy diogel sy'n fwy abl i wrthsefyll effeithiau rhagweledig hinsawdd sy'n newid". Amlinellodd y cynllun naw cam ynghylch lifogydd - ceir crynodeb o'r rhain yn y tabl isod. Cafodd y cynllun addasu ei gyhoeddi yn 2019, felly mae pob tabl yn cynnwys y diweddaraf am y cynnydd a wnaed ers ei gyhoeddi (lle bo modd).

Risgiau llifogydd i bobl, cymunedau a seilwaith	Y cynnydd hyd yn hyn	
Camau a gymerwyd eisoes	<p>Deddfwriaeth i orfodi safonau systemau draenio cynaliadwy ar bob datblygiad newydd yng Nghymru.</p>	<p>Daeth deddfwriaeth i rym ym mis Ionawr 2019 ar gyfer datblygiadau newydd dros faint penodol. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddeddfu i gryfhau'r gofynion dros ddefnyddio systemau draenio cynaliadwy sy'n darparu cynefin bywyd gwyllt.</p>
	<p>Lansiad y Rhaglen Cartrefi Clyd</p>	<p>Mae Rhaglen Cartrefi Clyd Llywodraeth Cymru'n cyflenwi mesurau effeithlonrwydd ynni drwy Nyth ac Arbed.</p>
	<p>Cynlluniau Rheoli Traethlin Cyfoeth Naturiol Cymru</p>	<p>Asesiad ar raddfa fawr o'r risgiau sy'n gysylltiedig â phrosesau arfordirol, a'r cyfeiriad polisi strategol.</p>
Camau tymor byr	<p>Gosod mesurau effeithlonrwydd ynni mewn 25,000 o gartrefi erbyn 2021</p>	<p>Mae adroddiadau blynyddol diweddaraf Arbed and Nest ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.</p>
	<p>Lansio cynllun tlodi tanwydd ar gyfer ymgynghoriad</p>	<p>Lansiwyd ymgyngoriad ym mis Medi 2020, a chafodd y cynllun ei gyhoeddi ym mis Mawrth 2021</p>
	<p>Cynyddu'r defnydd o 'atebion ar sail natur' trwy weithredu cynlluniau rheoli basn afon a strategaethau atal llifogydd</p>	<p>Nid yw'r cynlluniau rheoli basn afon terfynol wedi cael eu cyhoeddi eto, ond mae'r dogfennau ymgynghori yn awgrymu pwyslais ar atebion ar sail natur. Gweler Gorllewin Cymru a Dyfrdwy.</p>

Camau tymor canolig	Gweithredu Trechu Tlodi Tanwydd 2020 i 2035	Cyhoeddwyd y cynllun tloidi tanwydd ym mis Mawrth 2021.
	Gweithredu'r Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yn 2020	Cafodd y strategaeth ei chyhoeddi ym mis Hydref 2020, ynghyd â Datganiad i'r wasg gan Lywodraeth Cymru.
	Cynnwys mesur sy'n gofyn i grwpiau arfordirol baratoi adroddiad blynyddol yn y strategaeth genedlaethol newydd ar gyfer rheoli risg llifogydd ac arfordirol yn 2020.	Mae'r mesur wedi'i gynnwys yn y Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol : "MESUR 10: Bydd Grwpiau Arfordirol yn adrodd am gynnydd blynyddol cynlluniau gweithredu CRhTau i Lywodraeth Cymru drwy Fforwm Grŵp Arfordirol Cymru."

5.2. Risgiau i gyflenwadau dŵr cyhoeddus o sychder a llifoedd isel

Yn ogystal â llifogydd, mae sychder yn risg sylweddol arall sy'n deillio o newid hinsawdd. Mae Llywodraeth Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru yn gyfrifol am reoli adnoddau dŵr, gan gynnwys rheoleiddio tynnu dŵr. Roedd y cynllun addasu yn nodi 10 cam gweithredu yn ymwneud â sychder:

Risgiau i gyflenwadau dŵr cyhoeddus o sychder a llifoedd isel	Y cynnydd hyd yn hyn	
Camau a gymerwyd eisoes	Llywodraeth Cymru'n cyhoeddi ei Strategaeth Ddŵr yn 2015	Strategaeth Ddŵr (2015)
	Ymgyrch 'Gadewch i ni atal y bloc' gan Dwr Cymru	Dŵr Cymru, " Gallwch Chi Stopio'r Bloc "
	Lansiodd Water UK ei safon "Fine to Flush"	Water UK, " Fine to Flush "

	<p>Mae cynlluniau sychder wedi cael eu cynhyrchu gan gwmnïau dŵr yng Nghymru</p>	<p>Cyhoeddodd dau gwmni dŵr Cymru eu cynlluniau sychder newydd yn 2019, ac ers hynny mae'r ddau wedi cael cyfarwyddyd i gyhoeddi eu cynlluniau sychder terfynol ar gyfer 2020-2025. Gweler: Dŵr Cymru a Hafren Dyfrdwy</p>
<p>Camau tymor byr</p>	<p>Cynlluniau Rheoli Adnoddau Dŵr newydd yn 2020</p>	<p>Cyhoeddodd dau gwmni dŵr Cymru eu Cynlluniau Rheoli Adnoddau Dŵr yn 2019.</p> <p>Gweler: Dŵr Cymru a Hafren Dyfrdwy</p>
	<p>Ymchwili i wella dealltwriaeth o effeithiau newid hinsawdd ar argaeledd dŵr ar gyfer llywio'r asesiad risg newid hinsawdd yn 2021</p>	<p>Cafodd Tystiolaeth ar gyfer trydydd Crynodeb Aseiad Risg Newid Hinsawdd y DU (CCRA3): Crynodeb i Gymru ei chyhoeddi yng nghanol 2021. Defnyddiwyd yr asesiad i lywio Aseiad Annibynnol o Risg Hinsawdd y DU ar gyfer y CCC (Mehefin 2021),</p>
	<p>Cyfoeth Naturiol Cymru i gynhyrchu cynllun gweithredu cenedlaethol wedi'i gostio am gyfnod o bum mlynedd i adfer mawndiroedd</p>	<p>Cafodd y Rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawndiroedd 2020-2025 ei chyhoeddi ym mis Tachwedd 2020.</p>
<p>Camau tymor canolig</p>	<p>Bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi canllawiau newydd ar gyfer Cynlluniau Rheoli Adnoddau Dŵr erbyn 2025.</p>	<p>Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau ar gyfer datblygu'r cynlluniau hyn yn 2016.</p> <p>Mae canllawiau wedi'u diweddar (o 2021) ar wefan Cyfoeth Naturiol Cymru.</p>

	<p>Mae Ofwat wedi pennu targed i gwmniau dŵr leihau gollyngiadau dŵr o leiaf 15 y cant erbyn 2025</p>	<p>Mae'r targed i leihau gollyngiadau 15% yng nghynlluniau Dŵr Cymru a Hafren Dyfrdwy ar gyfer 2020-2025.</p>
	<p>Cynhyrchu cynlluniau rheoli basn afon newydd erbyn 2021 a chyflawni 'statws da' ar gyfer dyfroedd mewndirol erbyn 2027.</p>	<p>Mae'r rhain heb eu cyhoeddi eto. Mae tri chynllun rheolil basn afon sy'n ymwneud â Chymru - un yng Nghymru yn gyfan gwbl (sef Gorllewin Cymru) a dau sy'n croesi'r ffin â Lloegr (Dyfrdwy a Hafren).</p> <p>Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn arwain ar baratoi'r cynllun ar gyfer Gorllewin Cymru a'r Dyfrdwy. Asiantaeth yr Amgylchedd sy'n arwain ar y cynllun ar gyfer yr Hafren.</p> <p>Mae dau gynllun rheoli basn afon Cyfoeth Naturiol Cymru ar yr un cam. Cyhoeddwyd crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ym mis Medi, ond nid yw'r cynllun rheoli basn afon terfynol wedi cael ei gyhoeddi eto. Gweler Gorllewin Cymru a Dyfrdwy.</p> <p>Mae'r wybodaeth ddiweddaraf am ran Cymru yng nghynllun Asiantaeth yr Amgylchedd ar gyfer rheoli basn afon Hafren i'w gweld yma.</p>

	<p>Mae'r Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr, sydd â'r nod cyffredinol o gyflawni statws amgylcheddol da ym mhob corff dŵr, yn cael ei gweithredu fesul cam yn seiliedig ar y basnau afonydd hyn. Mae dogfen Cwestiynau Cyffredin Cyfoeth Naturiol Cymru ar Ddosbarthiad Dros Dro Cylch 2 (2018) yn nodi bod 40 y cant o gyrff dŵr Cymru wedi cyrraedd statws da neu well yn 2018. Disgwylir diweddariad o'r categorïau yn 2021</p>
--	--

5.3. Mynd i'r afael ag arferion rheoli tir sy'n cynyddu risg llifogydd

Roedd y cynllun addasu yn nodi bod hyrwyddo arferion amaethyddol da i wneud priddoedd a dŵr yn fwy cydnerth yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru. Nododd y gallai newidiadau mewn cynhyrchiant ac arferion amaethyddol a choedwigaeth mewn ymateb i'r newid yn yr hinsawdd arwain at ddefnyddio mwy o blaladdwyr. Mae mwy o lifogydd yn y gaeaf, a sychder yr haf, yn debygol o arwain at gollu mwy o blaladdwyr i gyrsiau dŵr ac at fwy o risg o erydu pridd moel. Roedd y cynllun yn nodi tri cham yn ymwneud â rheoli tir:

Mynd i'r afael ag arferion rheoli tir sy'n cynyddu risg llifogydd		Y cynnydd hyd yn hyn
Camau a gymerwyd eisoes	Dyfarnodd Llywodraeth Cymru bron i £1 miliwn i Ddŵr Cymru i gyflawni prosiect 'PestSmart'	Dŵr Cymru, prosiect <u>PestSmart.</u>
Camau tymor byr	Parhau i weithio gyda rhanddeiliaid i gyflawni'r amcan polisi o ostwng i'r pwynt lleiaf posibl effaith defnyddio plaladdwyr	Ddiwedd 2020, lanswyd <u>ymgyngoriad ar y cyd yn y DU</u> ar gynllun diwygiedig ar gyfer defnyddio plaladdwyr yn gynaliadwy.

<p>Camau tymor canolig</p>	<p>Hyrwyddo arferion amgylcheddol ac amaethyddol da i wneud priddoedd a dŵr yn fwy cydnerth, gan gynnwys cynlluniau rheoli pridd a maethynnau.</p>	<p>Nod y Grant Cynhyrchu Cynaliadwy yw mynd i'r afael â rheoli a storio maethynnau ar y fferm.</p> <p>Gellir cymhwyso cynlluniau Glastir, megis cynllun grantiau bach Glastir, at y diben hwn.</p> <p>Hefyd, mae rheoliadau llygredd amaethyddol dadleuol. Disgwylir canlyniad achos yn yr Uchel Lys, a glywyd ym mis Hydref 2021, maes o law.</p>
-----------------------------------	--	---

5.4. Risgiau i ecosystemau a busnesau amaethyddol yn sgil newidiadau mewn amodau hinsoddol

Mae coetiroedd a choed yn ganolog i addasu i newid hinsawdd - maent yn gwella ansawdd aer, yn gwella **bioddiogelwch** ar ffermydd, yn lleihau erydiad ac yn amddiffyn priddoedd, yn clustogi cyrsiau dŵr, yn lleihau'r risg o lifogydd ac yn rhoi cysgod mewn mannau trefol. Roedd y cynllun yn nodi y bydd Llywodraeth Cymru'n nodi cyfleoedd i gynyddu manteision addasu wrth lunio'r cynllun ar gyfer Coedwig Genedlaethol ac wrth annog ffermwyr a rheolwyr tir eraill i blannu coetiroedd newydd. Roedd y cynllun yn nodi chwe cham yn ymwneud â rheoli tir:

Risgiau i ecosystemau a busnesau amaethyddol yn sgil newidiadau mewn amodau hinsoddol		Y cynnydd hyd yn hyn
<p>Camau a gymerwyd eisoes</p>	<p>Lansiwyd Coetiroedd Cymru yn 2018</p>	<p>Y Strategaeth Coetiroedd i Gymru</p>
	<p>Sefydlwyd Rhaglen Glastir Llywodraeth Cymru ar gyfer creu coetiroedd</p>	<p>Agorodd 11eg Mynegiant o Ddiddordeb yn Creu Coetir Glastir ar 30 Medi 2021 a chaeodd ar 28 Hydref 2021. Roedd ar gael i reolwyr tir a oedd yn gallu cwblhau'r holl waith cyfalaf a phlannu erbyn 31 Mawrth 2023.</p>

		<p>Mae <u>Ilyfryn rheolau Creu Coetir Glastir</u> yn nodi “Y flwyddyn nesaf fe fyddan yn edrych i agor cynllun ariannu creu coetir newydd a fydd yn adeiladu ar Glastir Creu Coetir ond yn symlach ac ar gael yn gyson drwy gydol y flwyddyn. Fel rhan o hyn, fe fydd ariannu ar wahân ar gael ar gyfer cynllunio coetir. Rydym yn lansio peilot o’r cynllun cynllunio coetir law yn llaw a ffenestr 11 o Glastir Creu Coetir.”</p>
<p>Camau tymor byr</p>	<p>Cwblhau ymgynghoriad ar gymorth i ffermydd yn y dyfodol yng Nghymru a datblygu cynigion ar gyfer cynllun cynaliadwyedd ffermydd, gan gynnwys mesurau addasu a lliniaru newid hinsawdd ar gyfer y sector amaeth.</p>	<p>Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru <u>Bapur Gwyn</u> a chyflawnodd y cam cyntaf yn y ‘<u>cyd-ddylunio</u>’ lle mae ffermwyr a rhanddeiliaid wedi llywio datblygiad y cynigion. Cynigiodd y Papur Gwyn Gynllun Ffermio Cynaliadwy yn seiliedig ar ddarparu nwyddau cyhoeddus, gan gynnwys mynd i’r afael â newid hinsawdd. Cafodd crynodeb o ymatebion i’r ymgynghoriad, casgliadau’r cyd-ddylunio ac ymateb polisi Llywodraeth Cymru <u>eu cyhoeddi ar 21 Medi 2021</u>.</p>
	<p>Cwblhau’r Rhaglen Galluogrwydd, Cynaliadwyedd a Hinsawdd, gan nodi sut y gall potensial o ran crydio newid a pham.</p>	<p>Cwblhawyd y <u>rhaglen</u> ar 30 Mehefin 2020.</p>

<p>Camau tymor canolig</p>	<p>Bydd Llywodraeth Cymru'n cynyddu manteision addasu wrth lunio'r cynllun ar gyfer Coedwig Genedlaethol</p>	<p>Mae rhagor o wybodaeth am y Goedwig Genedlaethol ar gael yn ein <u>herthygl ymchwil</u> ac ar <u>wefan Llywodraeth Cymru</u>.</p>
	<p>Cynyddu gorchudd coetir o leiaf 2,000 hectar y flwyddyn rhwng 2020 a 2030.</p>	<p>Mae'r ffigurau diweddaraf ar blannu newydd yn dangos dim ond 80ha yn y flwyddyn hyd at fis Mawrth 2020. Gweler yr adran ar blannu ac ailstocio ym <u>Mriff Ymchwil y Senedd</u> ar gyfer cydestun:</p> <p>Yn ddiweddar, cwblhodd y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd <u>"archwiliad dwfn" i blannu coed</u>. Dywedodd mewn <u>datganiad i'r Senedd</u>:</p> <p>"Mae'n rhaid i ni ddiogelu'r coed sydd gennym ni, a phlannu 86 miliwn yn fwy ohonyn nhw yng Nghymru erbyn diwedd y degawd hwn,"</p> <p>ac</p> <p>"Rydym yn derbyn y targedau plannu coed a bennwyd gan Bwyllgor Newid Hinsawdd y DU. Er mwyn cyrraedd sero net, mae angen i ni blannu 43,000 hectar o goed newydd erbyn 2030, gan godi i 180,000 hectar erbyn 2050."</p>

5.5. Camau trawsbynciol

Mae rhai ymyriadau yn torri ar draws un neu fwy o'r meysydd risg a amlinellir uchod. Mae'r rhain yn cynnwys seilwaith gwyrdd, polisi cynllunio a'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol.

Polisi Cynllunio Cymru a'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol		Y cynnydd hyd yn hyn
Camau a gymerwyd eisoes	Datblygwyd Polisi Adnoddau Naturiol	Y Polisi Adnoddau Naturiol (2018)
	Sefydlu gweithgor trawsddisgyblaethol i ddarparu seilwaith gwyrdd trefol	Fforwm Seilwaith Gwyrdd Cymru
	Polisi Cynllunio Cymru, Rhifyn 10 Rhagfyr 2018	Polisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 10 Rhagfyr 2018). Cyhoeddwyd Polisi Cynllunio Cymru 11 mis Chwefror 2021 .
Camau tymor byr	Llywodraeth Cymru i hyrwyddo ffocws ar y pethau bychain a all greu mannau gleision lleol, hygyrch	Mae gwybodaeth ar gael ar wefan Cyfoeth Naturiol Cymru .
	Sicrhau bod plannu coed a gyflenwir trwy Goetiroedd i Gymru yn cael ei gyflawni mewn ardaloedd trefol allweddol a lleoliadau allweddol eraill er mwyn sicrhau addasu	Cyhoeddodd Cyfoeth Naturiol Cymru adroddiad ar y Gorchudd coed yn nhrefi a dinasoedd Cymru yn 2016.
	Ymgynghori ar gynlluniau yn 2019/20 i gryfhau polisi cynllunio i atal adeiladu tai mewn ardaloedd bregus	Cafodd diweddariad o TAN15: Datblygu, llifogydd ac erydu arfordirol ei gyhoeddi ym mis Medi 2021.

<p>Camau tymor can-olig</p>	<p>Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn cynhyrchu datganiadau ardal erbyn mis Mawrth 2020</p>	<p>Cyhoeddwyd datganiadau ardal yn 2020. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn ein herthygl Ymchwil y Senedd.</p>
	<p>Cyfoeth Naturiol Cymru i adfer ucheldiroedd Cymru</p>	<p>Ystod o fentrau a gynlluniwyd i adfer ucheldiroedd Cymru:</p> <p>Rhaglen Weithredu Genedlaethol mawndir Cyfoeth Naturiol Cymru (2020);</p> <p>Mae Datganiad Ardal Gogledd-orllewin Cymru Cyfoeth Naturiol Cymru yn canolbwyntio ar reoli tir yn gynaliadwy yn yr ucheldiroedd;</p> <p>Mae Adroddiad Cyflwr Adnoddau Naturiol ar gyfer Cymru 2020 yn cael ei ddefnyddio fel sylfaen dystiolaeth i ategu adferiad yr ucheldiroedd; ac</p> <p>Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn dynodi ac yn monitro rhai meysydd ar gyfer diogelu'r amgylchedd. Mae gwahanol fathau o ddynodiadau sy'n berthnasol i'r ucheldiroedd, gan gynnwys SoDdGA (Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig) a safleoedd a ddynodwyd</p>

		yn flaenorol o dan rwydwaith Natura 2000 yr UE (bellach y rhwydwaith safleoedd cenedlaethol). Gellir dod o hyd i fanylion yn ein canllaw bioamrywiaeth .
	Cyhoeddi'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol newydd yn 2020	Cafodd Dyfodol Cymru: Y Cynllun Cenedlaethol 2040 ei gyhoeddi ym mis Chwefror 2021.
	Datblygu canllaw ategol i gynghori datblygwyr, aelwydydd a landlordiaid ar sut y gellir addasu cartrefi ac adeiladau i allu gwrthsefyll newid hinsawdd.	Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad, ymdengys nad yw wedi cael ei gyhoeddi eto.